# COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 5ED O FAWRTH 2025

Yn bresennol: Yr Is-gadeirydd Hefin Jones.

Y Cynghorwyr: Keith O'Brien, Enid Roberts, Idwal Williams, Aron Roberts, Aranli Thomas, Sarah Hughes, Richard Davies, Llywarch Davies.

.

Hefyd yn bresennol: Karen Hughes (Swyddog Ariannol)
Lona Williams (Clerc)
Elfed Roberts (Cynghorydd Sir).

Ymddiheuriadau: Annest Smith, A. Huw Jones , Iwan Jones .

## 2437 - COFNODION

Cyflwynwyd, cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion 5 Chwefror 2025 fel rhai cywir gan y Cadeirydd.

## 2438 - MATERION YN CODI O'R COFNODION

1401(3b) a 2191(1) - Garej Lôn – Adroddwyd bod car llwyd wedi parcio ger mynedfa Bryn y Gofeb ond bod yn bosib agor y giât. Adroddwyd bod nifer helaeth o'r ceir yma heb dreth nac ychwaith MOT arnynt. Adroddwyd bod y Clerc wedi gyrru e-bost i Mabon ap Gwynfor a Liz Saville Roberts er mwyn gofyn os oes oedd bosib iddyn nhw wneud unrhyw beth am y sefyllfa ond ni chafwyd ymateb hyd yma.

1774(4) - Gardd Sylvia Crowe, Sgwar y Ddraig a'r Adeilad Man Gwylio – Adroddwyd nad oedd adroddiad pellach, a na fydd adroddiad pellach nes y bydden nhw wedi cael arian.

1842(2) a 1878(7) a 2024(4) - Cyflymder a Goleuadau Stryd Bronaber/ Damweiniau ar ffordd A470/A4212 – Adroddwyd bod y Clerc wedi e-bostio'r Aelod Seneddol a Llywodraeth Cymru er mwyn amlygu bod 2 leoliad gwahanol sy'n beryglus. Cafwyd derbyniad gohebiaeth gan Llywodraeth Cymru'n nodi y dylem gael ymateb cyn y 27.3.2025, ni chafwyd ymateb gan yr Aelod Seneddol. Adroddodd y Cynghorydd Sir Elfed Roberts y bydd arolwg ar gyfer trafnidiaeth Cymru a bydd yn gyrru linc I'r holl gynghorwyr er mwyn ymateb iddo.

2068(2) - Mynwent Pencefn – Adroddodd y Swyddog Ariannol bod y pensaer Mr Rhys Davies am fwrw ymlaen gyda'r gwaith heb y wybodaeth gan Mr Guto Tomos.

2099(6) - Marciau Gwyn y Pentref/Maes Parcio Bryn Glas – Adroddodd y Cynghorydd Elfed Roberts ei fod yn disgwyl adroddiad am hyn gan Mr Adrian Williams.

2229(7) - Llochès Bws Ty Gwyn – Adroddwyd bod y Clerc wedi derbyn ymateb pellach gan Mrs Rhian Williams Cyngor Gwynedd yn nodi y byddai'r gwaith o osod y lloches yn cael ei gwblhau ar yr 11eg o Fawrth.

2247(2) - Meinciau Gardd Salem – Adroddwyd bod y cynghorwyr Hefin Jones a Arianli Thomas wedi mesur y meinciau. Ymwelwyd a Wynnstay Dolgellau ac adroddwyd bod meinciau ar gael am £370 yr un gan gynnwys TAW. Cytunwyd i brynnu'r meinciau yma.

2252(3) - Cofeb Hedd Wyn (Naomi Jones Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) – Adroddodd y Cyngorydd Hefin Jones nad oedd diweddariad pellach.

2255(1) - Pont droed Llyn Trawsfynydd – Adroddwyd ein bod yn parhau i aros am ymgynghoriad sydd am ddigwydd gyda trigolion y pentref er mwyn gweld beth yr hoffent eu gweld yn digwydd gyda'r bont droed. Adroddodd y Cynghorydd Keith O'Brien o ran gwaith datgymalu a'r graffid o'r adweithyddion mae 20 miliwn wedi ei rhyddhau i orffen y gwaith ymchwil oedd yn cael ei ddarparu ar sut i gael gwared ar y graffid. Roedd 5 mlynedd o waith disgwyl oherwydd y diffyg arian ond mae hwn wedi ei leihau i 3 mlynedd yn awr.

2333(11) - Ffordd tu cefn i 1-6 Bro Prysor – Adroddodd y Clerc ei bod wedi e-bostio Cyngor Gwynedd ac wedi derbyn ymateb yn cadarnhau bod Swyddog wedi ymweld a'r lleoliad. Dywedwyd o fewn yr e-bost eu bod yn disgwyl cadarnhad am berchnogaeth y darn tir cyn trosglwyddo'r mater i wasanaeth gwarchod y cyhoedd y Cyngor. Adroddwyd y byddai'r swyddog Ariannol yn gyrru map o'r safle i'r Clerc.

2334(1) - Gwefan y Cyngor – Adroddodd ein bod wedi cael gweld drafft o'r wefan yn ystod y mis a gwnaethpwyd ychydig o sylwadau am y wefan er mwyn mireinio ambell beth a'u pasio ymlaen i GWE Cambria. Adroddodd y Swyddog Ariannol y bydd hyfforddiant ar gael ar sut i'w diweddaru unwaith y bydd y wefan yn fyw. Gofynodd y Cynghorydd Idwal Williams os byddai modd rhoi linc i wefan Traws-Newid ar wefan y Cyngor a cadarnhaodd y Swyddog Ariannol y byddai yn gwneud ymholiadau.

2379(4) Bryn y Gofeb – Adroddwyd nad yw'r gwaith wedi cael ei wneud eto gan gwmni Tir a Choed. Dywedwyd bod dwy ddafad ym Mryn y Gofeb oherwydd bod y wal wedi dymchwel ar ochr y llyn. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Idwal Williams yn gyrru lluniau o'r
wal I'r Clerc hefyd bydd angen ail osod y weiran bigog yno.

2409(1) – Bont Afon Prysor - Adroddodd y Clerc bod Adrian Williams wedi'n diweddaru a dweud y bydd trefniadau'n cael ei wneud i docio'r coed Helyg yn ôl cyn diwedd mis Mawrth.

2409(2) – Cerbydau y Maes Parcio - Adroddodd y Clerc ei bod wedi e-bostio Cyngor Gwynedd i adrodd bod y safle'n achosi 'statutory nuisance' cafwyd ymateb yn nodi bod Swyddogion wedi ymweld a'r lleoliad, a bod y mater yn awr wedi'i drosglwyddo i wasanaeth gwarchod y cyhoedd y Cyngor am sylw priodol. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gofyn am ddiweddariad a rhoi gwybod iddynt pwy oedd yn berchen ar y camper fan felyn.

2416(3) - Ffordd y Pentref – Penderfynwyd y byddai'r cynghorwyr yn tynnu lluniau o unrhyw dyllau yn y ffordd gyda chraciau ynddynt a'u gyrru ymlaen 'r Clerc.

2417(3) - Tender ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus, Mynwentydd Pencefn a Salem, Gardd Salem, Cae Chwarae Ty Llwyd a'r tir o amgylch Cofeb Hedd Wyn - Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi gwahoddiadau am brisiau ar gyfer y gwaith gyda cais i ddychwelyd prisiau erbyn 6yh Nos Lun y 3ydd o Fawrth. Adroddwyd nad oedd prisiau wedi eu derbyn. Cytunwyd y byddai'r Swyddog Ariannol yn cysylltu gyda Mr Gwyn Evans Cyngor Gwynedd i wneud ymholiadau ynglŷn a'r llwybrau, ac yn mireinio'r cytundeb i gweddill y gwaith i'r tendr i weld os bydd ymateb.

2429(1) – Defaid yn crwydro o amgylch y pentref - Adroddwyd nad oedd Mr Peter Johnson o'r adran iechyd anifeiliaid wedi ymateb i e-bost y Cyngor. Cytunwyd i ail yrru'r e-bost i Mr Peter Johnson.

2429(2) - Mynwent Salem – Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts ei bod hi wedi bod i'r safle gyda Mr Robert Williams. Dywedwyd bod ochr wal y Cyngor wedi difrodi'n sylweddol, a bod gwaith mawr i wneud ar y wal. Cytunwyd y byddem yn aros i Mr Robat Williams ddod yn ôl atom gyda pris.

2429(4) - Ffordd gefn 7-12 Bro Prysor - Adroddwyd bod y Clerc wedi gyrru'r lluniau ymlaen i Adra. Cafwyd ymateb yn dweud bod y lluniau wedi cael eu hanfon ymlaen at adran cwsmer i weithredu.

2435(1) - Ffens bren rhwng Maes Graean a Cefn Gelltgwm – Cadarnhawyd mod y mater o'r ffens wedi gwyro wedi cael ei gyfeirio i Merfyn Morris.

2435(2) - Byrddau Dehongli ac Arwydd y Llyn - Adroddodd y Clerc nad oedd wedi derbyn ymateb a cytunwyd i yrru ail gohebiaeth i Gyngor Gwynedd yn gofyn os oes byrddau dehongli am ddod yn eu lle.

2435(3) - Arwyddion stryd Bryn Glas a Chapel Maengwyn - Adroddodd y Cynghorydd Hefin Jones y yn mynd ar arwyddion i Seler y Neuadd.

## 2439 – GOHEBIAETH

(1) Cais Cynllunio - Cais Rhif: NP5/78/T445B Newid defnydd siop segur ar y llawr gwaelod i ffurfio rhan o annedd presennol (Dosbarth Defnydd C3) Manchester House, Pen Y Garreg, Trawsfynydd, LL41 4UB. Cytunwyd i gymeradwyo'r cais.

(2) Cais Rhif: NP5/78/T364 Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer yng nghefn yr eiddo Gorffwysfa, Bryn Glas, Trawsfynydd. LL41 4SW. Cytunwyd i gymeradwyo'r cais.

(3) Traffic Cymru: A470 Trawsfynydd - gwaith ailwynebu - Dyddiad Dechrau - 4 Mawrth 2025 - Dyddiad Cwblhau - 14 Mawrth 2025

(4) Cais i osod giât ar Hawl Tramwy Cyhoeddus, Cyf. grid: SH722346 Safle: Yr Ysgwrn, Trawsfynydd, LL41 4UW.

## 2440 - ADRODDIAD ARIANNOL

(1) Derbyniwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol a gyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol.

(2) Cadarnhawyd gan y Swyddog Ariannol bod llythyr wedi dod i law yn nodi nad oes dim trethi'n daladwy ar Lys Ednowain am y blynyddoedd 2023/24 a 2024/25.

(3) Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi gofyn i gwmni G.L.Jones symud ymlaen gyda'r archwiliad ar gae chwarae Ty Llwyd. Adroddodd y Cynghorydd Richard Davies ei fod wedi cawl sgwrs gyda Clerc Cyngor Garndolbenmaen gan eu bod wedi cael grant i wella eu cae chwarae gyda chymorth Swyddog Datblygu Cyngor Gwynedd. Adroddodd y Cynghorydd Aranli Thomas hefyd bod grantiau ar gael trwy Byw'n Iach. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Aranli Thomas yn trosglwyddo'r rhif iI'r Swyddog Ariannol.

(4) Adroddwyd bod y Swyddog Ariannol wedi talu £60 i Mr Andrews am ei waith yng Ngardd Salem a gardd fach Sgwar y Pentref. Yr oedd y Cynghorydd Huw Jones wedi holi os oes cytundeb mewn lle rhwng y Cyngor a Mr Andrews ond gan nad oes cytundeb mewn lle ar hyn o bryd, cytunwyd i barhau gyda'r trefniant presennol.

(5) Adroddodd y Swyddog Ariannol bod angen trosglwyddo arian gwerthiant Llys Ednowain i gyfrif ar wahân. Cytunwyd i fuddsoddi £167,548.20 mewn cyfrif cynilo am ddwy flynedd.

(6) Trafodwyd y 3 Cais Ariannol a dderbyniwyd a cytunwyd cefnogi y 3 gyda £1500 i'r Neaudd Gyhoeddus a £100 yr un i 'Steddfod Stesion a Lliaws Cain.

## 2441- MATERION I'W TRAFOD AR Y PRYD

(1) Gofynnodd y Cynghorydd Richard Davies i ni yrru gohebiaeth i adran dai Cyngor Gwynedd i ofyn pwy sy'n berchen ar 6 Bro Islyn a 22 Cefn Gwyn, a pha ddefnydd sy'n cael eu gwneud o'r tai.

(2) Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod Bron Gwyndy yn wag ers rhai blynyddoedd. Cytunwyd i yrru gohebiaeth i'r Cyngor i ofyn pwy sy'n berchen ar y tŷ a gofyn os oes bosib gwneud rhywbeth ynglŷn ag o.

(3) Adroddodd y Cynghorydd Sir Elfed Roberts ei fod wedi gofyn i Mr Gwyn Evans wneud gwaith ar y ffens ar y llwybr beics o amgylch y llyn, ond nid oes arian ar hyn o bryd. Mae'r llwybr mewn cyflwr gwael iawn. Cadarnhaodd y Cynghorydd Keith OBrien bod 3 Cyngor gwahanol sef Trawsfynydd, Talsarnau a Gellilydan ynghlwm yn y llwybyr beiciau gan bod y llwybr yn mynd drwy'r 3 plwyf.

(7) Adroddodd y Cynghorydd Enid Roberts bod Yes Cymru wedi bod o amgylch y pentref yn casglu sbwriel. Penderfynwyd yrru llythyr o ddiolch i Paul o Yes Cymru.

(8) Derbynwyd ymateb gan Mr Gwern ap Rhisiart yn nodi eu bod yn ariannu ysgolion drwy fformiwla sydd yn cyfrannu swm penodol fesul disgybl, yr her i'r ysgol fan hyn ydi byddai derbyn un disgybl yn dod a sŵn mae'n debyg o'n agos i £5000 i'r ysgol ond fyddai hynny ddim yn ddigon i ariannu hanner diwrnod hyd yn oed o amser athro neu athrawes dros amser.Os yw'r ysgol am gynyddu niferoedd y staff dysgu fe fyddai'n rhaid i nifer y ceisiadau mynediad fod yn uwch. Pe byddai'r ysgol yn cael nifer sylweddol o geisiadau mynediad fe ellid ystyried benthyciad tymor byr ir ysgol fel fod modd penodi o fewn y flwyddyn ariannol.Gyda genedigaethau ar ei isaf ers i ni gychwyn cofnodi ac ysgolion Gwynedd yn debygol o golli 1000 o ddisgyblion o'r system rhwng 2021 a 2027 mae'n annhebygol y byddwch yn gweld cynnydd arwyddocaol mewn nifer plant yn yr ysgol.Hyderaf fod hyn yn egluro'r

sefyllfa. Gwn y bydd y swyddogion addysg yn cefnogi'r ysgol ac ar gael i gefnogi'r Corff Llywodraethol os oes angen. Penderfynwyd ymateb i'r e-bost gan Mr Ap Rhisiart yn nodi bod angen newid y drefn a symudiad cenedlaethol i fod yn fwy teg, a nad yw'n dderbyniol bod llywodraethwyr sy'n gorff o aelodau gwirfoddol yn gorfod ysgwyddo'r baich anheg o orfod cael gwared o aelodau staff a chyfrifoldeb am arian- yn enwedig gan mai nid y nhw sy'n casglu'r arian i mewn. Cytunwyd hefyd i gopio'r aelod seneddol i'r e-bost.

<u>2442 - MATERION AR GYFER Y CYFARFOD NESAF</u>

(1) Cadarnhau rheolau, polisiau, adroddiadau y Cyngor.

<u>2443 - ADRODDIADAU O'R CYFARFODYDD YN YSTOD Y MIS</u>

<u>1962(1) a 2138 - Adeiladau Cyhoeddus y Pentref</u>

(1) Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones bod pethau mewn lle i benodi cydlynydd ac i wneud gwelliannau i'r neuadd. Adroddodd y Cynghorydd Idwal Williams bod pwyllgor wedi bod ar y 4ydd o Fawrth a bod dyddiad cau'r swydd cydlynydd yn dod i ben ar y 7fed o Ebrill. Dywedwyd na fydd swydd y cydlynydd yn cynnwys chwilio am gyllid I'r neuadd.

(2) LPIP- Adroddwyd bod £10,000 ar gael i gael i wneud gwaith ymchwil yn yr ardal, dywedwyd bod Mark Ghan wedi dweud bod yr arian yma'n dod i ben ym Mis Mehefin. Dywedwyd bod cyllid wedi ei bennu i weithgareddau gan gynnwys tadau gyda'u babanod ar foreau Sul. Dywedwyd bod Mark Ghan wedi gwneud cais am prosperity fund grant o £110,000. Adroddwyd nad oedd y neuadd wedi ei chofrestru gyda'r gofrestrfa tir a bod angen gwneud hyn, er mwyn i'r Loteri gael sicrwydd o bwy sydd berchen ar eiddo. Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Annest Smith i enwebu cyfriethiwr i wneud hyn ar ran y Cyngor.

**CYFARFOD NESAF Y 2il O EBRILL 2025.**